



Cymru a'r Guarani

Gyda'n Gilydd am Yfory



Proffil Siaradwyr

**Darllenwch ymlaen i
ddarganfod popeth am ein
siaradwyr cyffrous ac
ysbrydoledig!**

JU KEREXU - TENONDÉ/ CYDLYNYDD GWEITHREDOL CGY



Cafodd Juliana Kerexu Cafodd Juliana Kerexu Mirim Mariano Vilma ei geni mewn tiriogaeth frodorol o'r enw Ilha da Cotinga yn Paranaguá, Brasil. Gwnaeth hanes fel y fenyw gyntaf erioed i ddod yn bennaeth yn ei hardal! Mae Juliana yn cyflawni llawer o bethau anhygoel. Mae hi'n athrawes Guarani, yn fardd, yn arweinydd ysbrydol, yn grefftwraig ac yn actores.

Fel arweinydd benywaidd bwysig, mae Juliana yn dod â menywod at ei gilydd drwy gyfarfodydd cenedlaethol ac yn amddiffyn tiriogaeth y Guarani, Coedwig yr Iwerydd a glaswelltiroedd y Pampa. Mae hi'n gweithio'n galed i sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol dyfu i fyny yn siarad yr iaith Guarani a'u bod yn cadw cysylltiad dwfn â'u hysbrydolrwydd, eu diwylliant, a'u brwydr dros fywyd a thir. Dan arweiniad doethineb y nhaneramõi (henuriaid y Guarani), mae hi'n cadw traddodiadau hynafol yn fyw wrth fynd i'r afael â heriau'r oes sydd ohoni. Mae ei chryfder yn ysbrydoli nid yn unig ei phentref ei hun, ond menywod Brodorol a chyfeillion ar draws Brasil a'r byd hefyd!

VILMA VERÁ RIOS - CYDLYNYDD RHANBARTH GORLLEWINOL PARANÁ / CGY



Cafodd Vilma ei geni ym mhentref Pirajuí, darn o dir wedi'i ddiogelu ar gyfer Pobl Frodorol. Pan oedd hi'n 16 oed, symudodd gyda'i theulu i Dir Brodorol Guasu Guavirá yn Paraná. Yno, profodd yn uniongyrchol yr heriau o fyw ar dir yr oedd pobl yn ymladd drosto.

Yn 17 oed, rhoddodd ei haraith gyhoeddus gyntaf ynghylch brwydrau pobl ifanc a menywod Brodorol. Dyma ddechrau ei thaith fel ymgyrchydd balch dros yr Avá-Guarani.

Mae Vilma bellach yn enwog ar draws y byd am ei gwaith caled.

Mae hi'n eiriol dros gwmnïau mawr sy'n cymryd tir i dyfu soia, chwistrellwyr gwenwynig i ladd pryfed, hiliaeth, a thrin menywod yn annheg. Heddiw, mae hi'n dysgu ei mamiaith ac yn arweinydd rhanbarthol yn y sefydliad sy'n cynrychioli Pobl y Guarani - Comissão Guarani Yvyrupa (CGY).

MINDUÁ [JULIANA VILHALVA]- SWYDDOG CYFATHREBU YN CGY



Tyfodd Juliana i fyny yn gwylio ei thad, ei thaid a'r henuriaid doeth yn brwydro dros eu tir. Yn sgil cael ei hysbrydoli gan ei chyfnither Patrícia, sy'n gwneud ffilmiau, sylweddolodd Juliana y gallai ddefnyddio pŵer geiriau, fideos a lluniau i helpu ei chymuned a chryfhau eu lleisiau. Pan oedd ond yn 16 oed, ymunodd â Comissão Guarani Yvyrupa (CGY), y sefydliad sy'n cynrychioli pobl y Guarani, i rannu gwir straeon ei phobl.

Heddiw, mae hi'n byw ar arfordir deheuol São Paulo ac yn teithio i wahanol daleithiau ar draws Brasil i arwain, rhannu gwybodaeth, a dod â phobl at ei gilydd. Mae hi'n arweinydd ifanc balch sy'n defnyddio'r cyfryngau a phŵer adrodd straeon i ddiogelu ei diwylliant hynafol ac i addysgu'r genhedlaeth nesaf sut i sefyll dros eu hawliau.

LLYR GRUFFYDD

AELOD O'R SENEDD



Mae Llyr yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd. Yn y rôl hon, mae'n gyfrifol am lawer o faterion amgylcheddol, sy'n cynnwys:

- mesurau i arafu effeithiau'r newid hinsawdd ac addasu iddynt
- cefnogi amaethyddiaeth a ffermio cynaliadwy
- gofalu am ein coedwigoedd, afonydd a'n moroedd
- bioamrywiaeth a chadwraeth

I weld rhestr lawn o'i gyfrifoldebau, ewch i
<https://www.gov.wales/llyr-gruffydd-ms#204392>

Dechreuodd Llyr ei yrfa fel gweithiwr ieuenctid, yn helpu pobl ifanc. Mae wedi gweithio hefyd ar brosiectau busnes i gefnogi'r economi leol, ac wedi rhoi cyngor arbenigol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru i helpu i warchod natur a lleoedd hanesyddol. Ar ôl sefyll mewn sawl etholiad gwahanol, cafodd ei ethol yn llwyddiannus i'r Senedd yn 2011. Y

m mis Mai 2026, cafodd swydd bwysig iawn yng Nghabinet Llywodraeth Cymru i ofalu am "Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd". Mae hyn yn golygu mai ei brif rôl yw sicrhau bod Cymru yn gallu addasu i argyfyngau fel tywydd eithafol, a diogelu ei hadnoddau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

YSGOL UWCHRADD BISHOP VAUGHAN



Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Vaughan, Abertawe wedi cyflawni eu statws Hyrwyddwyr Dim Datgoedwigo. Fe wnaethant ymchwilio i brydau bwyd eu hysgol, a darganfod bod cynhwysion a oedd yn peri risg i goedwigoedd ar y fwydlen.

Cymerodd y dosbarth gamau i newid cynhwysion hoff ddanteithyn melys, sef y cwci, a defnyddio cynhwysion sydd ddim yn cyfrannu at ddatgoedwigo. Roedd hyn yn llawer o hwyl, a bu'r cwci Masnach Deg yn boblogaidd iawn gyda phawb. Profodd y disgyblion ei bod yn bosibl gwneud bwyd sy'n gyfeillgar i goedwigoedd.



Fe wnaethant rannu'r pethau y gwnaethon nhw eu dysgu gyda'r ysgol gyfan a nawr, maen nhw'n gobeithio gweithio gyda Chyngor Abertawe i roi'r cwci ar y fwydlen, ac i sicrhau nad oes unrhyw ddatgoedwigo yn gysylltiedig â phrydau bwyd eu hysgol.

SARA, LLYSGENNAD IEUENCTID YR HINSAWDD



"Ers imi fod yn blentyn, rwyf wedi bod yn bryderus iawn am yr hinsawdd a dirywiad ein byd naturiol. Ers imi ymuno â'r YCA y llynedd, rwyf wedi cael profiadau anhygoel fel cymryd rhan mewn panel, mynychu Wythnos Hinsawdd Llundain a chael fy nghyfweld ar raglen radio.

Mae bod yn rhan o'r gymuned hon o bobl ifanc sy'n ymladd dros cyfiawnder hinsawdd wedi gwirioneddol rhoi cysur imi i ddeall nad wyf ar ben fy hunain yn gofidio am yr hinsawdd.

Fel cyd-ysgrifenydd, fy rôl yn y grŵp yw cydlynu ein cyfarfodydd wythnosol pan fo angen, helpu gyda gweinyddiaeth a rhoi mewnbwn ynghylch ein prosiectau amrywiol.

Credaf yn ddiffuant fod addysgu'r genhedlaeth nesaf am raddfa'r crisis hinsawdd yn hanfodol er mwyn ymdrechu tuag at ddyfodol gwell."